CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION – CYFARFOD MEHEFIN 2017

DYDDIAD	Nos Fercher, 21 Mehefin 2017
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Ysgol Rhostryfan**

a)	**Croeso** Rhoddwyd groeso i bawb gan yr Is Gadeirydd Michelle Williams. Yn bresennol roedd Gwilym V Thomas, Gwilym Ll Williams, Tom Ellis, Neal Williams, Cyng Aeron M Jones, Caryl E Lewis (Clerc**)**
b)	**Ymddiheuriadau** Cafwyd ymddiheuriadau gan y canlynol – Jason Hunt, Rhys Owen, Elin Evans, Nerys Evans, Elwyn Jones, Les Williams.
c)	**Datgan Buddiant** Dim i'w nodi
d)	**Cadarnhau cofnodion 17 Mai 2017 a materion yn codi** Cynigodd GVT fod y cofnodion yn gywir ac eilwyd hynny gan MW.
e)	**Materion i'w trafod:** a) Sedd Wag Dinas – Cyfethol Nodwyd fod sedd wag yn Dinas a felly y byddai'r Cyngor Cymuned yn cyfethiol ar gyfr y sedd. Roedd y Clerc wedi rhoi hysbyseb i fyny yn yr hysbysfyrddau, roedd 2 gais wedi eu derbyn, sef Aeron Maldwyn Jones a Huw Rowlands. Cafwyd pleidlais yn y cyfarfod. Pleidleiswyd yn unfrydol – Aeron M Jones fyddai'n cael y sedd wag. Rhoddwyd llongyfarch i Aeron a nodwyd diolch i Huw am ei ddiddordeb yn y sedd. b) Prosiect Porwyr Uwch Gwyrfai Yn absenoldeb RO nid oedd yn bosib derbyn diweddariad ar y prosiect. Gofynnwyd iddo adrodd yn cyfarfod nesaf. c) Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos Dim diweddariad pellach wedi ei dderbyn. Bydd y Clerc yn holi OP am wybodaeth bellach er mwyn adrodd yn y cyfarfod nesaf. d) Wal y fynwent Nododd GVT ei fod wedi siarad Bryn o Gwmni Jones Brothers. Gofynnwyd i ni fynd nol i gysylltiad ar ddiwedd yr Ymchwiliad Cyhoeddus i weld a fydd modd cael cerrig drwyddyn nhw. Nodwyd y bydd angen oddeutu 100 tunnell o gerrig. e) TE – Coed a gwrych wedi eu torri yn fler ger stesion Dinas. Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd yn nodi fod y gwaith wedi gorfod cael ei ohirio am y tro oherwydd tymor nythu. Bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen wedyn. f) GVT – Yn 2014 mi roedd Cyngor Gwynedd wedi datgan y byddent yn gwneud y lon ger Gwelfor, Rhosgadfan yn 'one way' ond ddim byd wedi digwydd. Clerc wedi gwneud ymholiadau ond ymddengys nad oedd Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o hyn. Yn ol NW Cartrefi Cymunedol Gwynedd sydd bia'r lon, astudiaeth wedi ei wneud ond toed y lon ddim digon llydan i wneud one way. Felly, lon ddim by di wneud gyda cyngor Gwynedd.

	g) GVT – Llwybr Pen y Muriau, Rhosgadfan - darn bach angen ei dorri i fyny at y giat. Wedi ei wneud gan Wyn Williams. h) EE – Torri gwair yn gyffredinol angen sylw, hefyd mae'r broblem sbwriel a llwybr cerdded yn culhau ar y lon rhwng Ffrwd Cae Du a Dinas yn parhau. Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn dweud y byddent yn gyrru arolygwyr allan i asesu. i) GWLL – Pen y Groeslon hyd at Sgwar Bryn Melyn (Rhos Isaf), mae gwrych a coed yn gor dyfu ac yn culhau'r lon. Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn dweud y byddent yn gyrru arolygwyr allan i asesu. j) EJ – Cyngor – angen torri coed lle mae na arwyddion pwysig fel troeadau. Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn dweud y byddent yn gyrru arolygwyr allan i asesu. k) EJ - Bont o dan carreg lwyd yn cael ei ail adeiladu. Yn gwario £18k ar y bont, angen diolch i'r cwmni Rheilffordd, mae nhw'n buddsoddi arian yn y gymuned. Clerc wedi gyrru llythyr a wedi gofyn a oes modd cael datganaid a lluniau i roi yn Lleu, aros am ymateb.
6.	**Derbyn Adroddiadau** a) Cafwyd cais gan y Clerc i drafod y safle gwe yn y cyfarfod nesaf gan y bydd yn gweithio arno dros yr haf. b) Angen asesiad risg or fynwent – bydd rhaid rhoi rhybydd i fyny yn yr hysbysfyrddau ac yn y papur. Clerc i gael pris ac adrodd yn ol. **c)** Cysgodfan bws ger Goat Llanwnda, wirioneddol angen ei llnau. Angen ei ychwanegu i'r tender a gofyn i Wyn Williams ei wneud.
7.	**Is-bwyllgorau** Dim i'w nodi
8.	**Materion Ariannol** a) Adroddiad Ariannol **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 19 Mehefin 2017** **1. Cyfrif Cadw** Balans a ddygwyd ymlaen: **21,171.84** + Llog 1.35 **Balans ar derfyn busnes 19 Meh 2017 21,173.19** **2. Cyfrif Siec** Balans a ddygwyd ymlaen: **4,149.44** - 101025 Caryl E Lewis – Cyflog Mai 531.47 - 101024 Cyngor Gwynedd 1.00 - 101022 John Roberts 69.00 - 101021 Cyllid y Wlad Ebrill 99.00 - 101026 Cyllid y Wlad Mai 122.00 - 101023 Wyn Williams 386.00 **Balans ar derfyn busnes 18 Ebrill 2017: 2,940.97**

	Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 21 Mehefin 2017: Cyflog Clerc Mehefin 461.05 Cyllid y Wlad Mehefin 104.00 Cyngor Gwynedd 230.00 **Cyfanswm** **795.05** b) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol Nodwyd fod y Clerc yn aros i John Roberts orffen yr archwiliad mewnol ac adrodd yn ol.
9.	**Materion Cynllunio** Derbyniwyd y ceisiadau canlynol: C17/0549/24/LL – Y Fedwen, Bontnewydd – Dymchwel strwythurau presennol a chodi estyniad unllawr ar gyfer yr eiddo C17/0476/24/LL – Caeau Uchaf, Rhosgadfan – Estyniad ochr C17/0288/24/LL – Siop Gwyled, Rhostryfan – Addasu'r adeilad presennol fel siop i annedd breswyl C17/0573/24/LL – 30 Chatam Log Cabins, Llanwnda – Ail leoli strwythur gardd i ochr yr eiddo presennol C17/0571/24/LL – Tyddyn Seipar, Saron – Cais i godi estyniad i'r eiddo, modurdy dwbl ac estynnu cwrtil C17/0569/24/TR – Tyddyn Seipar, Saron – Cais ol-weithredol ar gyfer llinell trydan uwchben. Dim sylwadau na gwrthwynebiadau.
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau** Dim i'w nodi
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** a) GVT – Angen llythyru Cymdeithas y Porwyr ar ran Clwb Mountain Rangers – eisiau gwybod pam fod y defaid yn parhau i ddod i'r pentref, mae'n peri problem i'r Clwb. Mae angen i Cyngor Gwynedd gael gwybod hefyd, er bod cattle grids, sut mae nhw'n dod i mewn? b) GVT – Bronallt, Rhosgadfan - Dwr yn casglu gan fynd o'r lon i lawr am y tai. Cyngor Gwynedd wedi addo gosod gwter tua 2 flynedd yn ol i sicrhau nad yw hyn yn digwydd. c) TE – Eithin ar llwybr cae haidd yn broblem, ar ochr Cyngor Llandwrog, angen rhoi cais i'r Cyngor Cymuned wneud y gwaith. d) AMJ – Comisiwn Etholiadau yn ymgynghori ar ffiniau ar hyn o bryd. Mae 1500 o bobl yn ward Llanwnda ar hyn o bryd, AMJ wedi cynnig gadael ffin y ward fel ag y mae. Angen i'r Cyngor Cymuned yrru llythyr yn nodi eu bod yn fodlon fel ag y mae a ddim eisiau newid. e) AMJ - Tir Comin Rhosgadfan - AMJ yn edrych ar rai or materion ac am ddod a manylion i'r cyfarfod nesaf. Nodwyd mai Knight Frank ydy'r cwmni asiant tir comin yn Llundain. Mae achos yn Rhosgadfan le mae person wedi cymryd tir i wneud lle parcio. AMJ i sganio llythyr a'i yrru mlaen i MW. MW i yrru co-ordinates y darn Rhosgadfan at yr asiant tir f) JH – Cwyn am llwybr Cae Coch, Rhostryfan. Mae perchennog ty Tan y Fron wedi tynnu ffens a wedi rhoi cerrig lawr i wneud lle parcio ymhle mae'r llwybr i fod. Angen adrodd wrth Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd, mae dal bosib cael mynediad ond mae cerrig man o flaen y llwybr. Hefyd mae'r llwybr o'r sgwar heibio'r capel am Cae Coch wedi tyfu'n wyllt ac angen ei dorri.

	Daeth y cyfarfod i ben 8:30pm. **Dyddiad: 26 Gorffennaf 2017** **Lleoliad: Canolfan Llanwnda**